

# 2023-2024

## Adroddiad Sefydliadol #19

**Y cyfnod dan sylw: 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2023**

Llun: Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys

Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol 3

Uchafbwyntiau chwarter 3 4

Ein lle yn y sector 5

Ein heffaith:

Uchafbwynt wrth gyflawni nod: Datblygu Awduron 6

Cynnydd yn erbyn ein targedau

Cyngor Celfyddydau 2023-24 8

Targedau Gweihredol 15

Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi 17

Gwersi i’w Dysgu

Gweithgaredd a Gweithredol 18

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma Gofynion Cyllido CCC a'n gofynion adrodd mewnol sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â’n Gwersi i’w Dysgu.

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Mae gennym hefyd ystod eang o dargedau gweithredol ar gyfer 2022-25. Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol

Ar lefel strategol, mae'r chwarter hwn wedi bod yn un o uchelfannau ac iselfannau. Roedd y dudalen hon yn adroddiad y chwarter diwethaf yn llawn gobaith yn dilyn canlyniad llwyddiannus Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Fodd bynnag buan y daeth ansicrwydd i gymylu'r gobaith yn dilyn clywed am y toriadau ariannol i'r sectorau celfyddydau a diwylliant. Ar hyn o bryd rydym yn parhau i aros i glywed faint o'r toriad o 10.5% i Gyngor y Celfyddydau fydd yn cael ei basio ymlaen atom ni a'r sefydliadau eraill a gaiff eu hariannu yn flynyddol. Ond rydym yn sicr y bydd effaith y toriadau rhain yn ddwys. Bydd diswyddiadau yn CCC yn effeithio ar eu gallu i weithio â ni'n effeithiol, ac wrth gwrs bydd sefydliadau partner eraill yn y sector yn derbyn toriadau. Er enghraifft, ni fu apêl y National Theatre Wales i dderbyn cynnig ariannu yn llwyddiannus, sy'n golygu fod eu gallu i helpu gyda'r rhaglen Newid Diwylliant | Culture Change yn gyfyngedig. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r toriad 10.5% i Gyngor Llyfrau Cymru a CADW – dau sefydliad yr ydym yn gweithio â nhw yn agos.

Tra fod y rhagolygon ychydig yn llwm, rwy'n hyderus fod Llenyddiaeth Cymru wedi paratoi yn drwyadl ar gyfer y storm, ac y byddwn yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau a bod yn driw i'n gwerthoedd. Mae gennym ni senarios wedi eu paratoi, ac wedi eu rhoi o'r neilltu tan y byddwn yn clywed gan CCC. Yn y cyfamser, mae'r tîm cyfan wedi bod yn brysur yn gweithredu effaith.

Roeddwn i'n benodol falch o weld rhai o Gyrsiau Strategol Tŷ Newydd yn dwyn ffrwyth. Roedd Nodiadau ar Natur yn wythnos wych lle daeth menywod o liw at ei gilydd i herio syniadau o bwy all sgwennu am natur. Yn ogystal â chael effaith enfawr ar y cyfranogwyr, (meddai un *"Cyn cwrs Nodiadau ar Natur, roeddwn i ar goll gyda fy ysgrifennu. Yn cael fy atal gal sawl rhwystr. Nawr, diolch i Nasia, Noreen a Llenyddiaeth Cymru rwy'n teimlo y gallaf gychwyn creu gyrfa fel awdur."*), mae wedi dysgu ein tîm ynglŷn â chreu gofod diogel a chynhwysol yn Nhŷ Newydd yn ystod – a thu hwnt – i'r sesiynau gweithdy. Er enghraifft rydym wedi dysgu sut i groesawu a chyllidebu ar gyfer gweithwyr cefnogol. Mae ein cwrs Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad i awduron anabl wedi bod yn ddefnyddiol i'r tîm i gael datblygu eu dealltwriaeth o hygyrchedd drwy farchnata a chynnal y cwrs.

Rwyf hefyd wedi cael fy mhlesio o weld ymateb enfawr i'n galwadau agored i brosiectau fel Cynrychioli Cymru, Kathod, Pencerdd a 'Sgwennu yn Well. Tra ei bod yn anodd siomi cynifer o ymgeiswyr aflwyddiannus, does dim gwell tystiolaeth fod angen ein gwaith a bod y gwaith hwnnw'n cael ei werthfawrogi gan awduron.

Felly dyna'r neges yr ydym yn ei chario gyda ni ar gyfer 2024. Beth bynnag a ddaw, mae'r tîm a minnau yn credu yng ngwerth ein gwaith ac rydym yn ymroddedig i wneud gwahaniaeth.

Claire Furlong, Cyfarwyddwr Gweithredol



Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- Agorodd proses ymgeisio'r National Poetry Award, gwobr sy'n cael ei threfnu gan Poetry Wales a'i noddi gan Llenyddiaeth Cymru.
- Cynhaliwyd pedair gweminar yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd drwy ein rhaglen Cynrychioli Cymru, gan gynnwys: ysgrifennu ffeithiol greadigol ac ysgrifennu am yr hinsawdd i blant, a datblygu a chynnal gweithdai mewn ysgolion a llyfrgelloedd.
- Cynhaliwyd saith o sgyrsiau a noddwyd gan Llenyddiaeth Cymru yn yr Eisteddfod, a'u rhyddhau ar bodlediad PenRhydd.
- Lansiwyd rhaglen cyrsiau Tŷ Newydd 2024.
- Mis Tachwedd 2023 oedd y cyfle olaf i gyflwyno cynigion i Wobr Llyfr y Flwyddyn a daeth 201 o gynigion i law.
- Agorodd y broses ymgeisio ar gyfer cyfle newydd i feirdd sydd am ddysgu sut i gynganeddu, sef y cynllun Pencerdd.
- Cyhoeddwyd enwau deg o awduron llwyddiannus a fyddai'n rhan o gwrs digidol Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad i awduron Byddar a/neu anabl.
- Croesawyd ceisiadau gan fenywod ac unigolion sydd â rhyweddau ar y cyrion ar gyfer Cwrs Preswyl Kathod yn Nhŷ Newydd.
- Cyhoeddwyd chwech o gyrsiau blasu digidol ychwanegol yn Nhŷ Newydd.
- Hysbysebodd Partneriaeth Ogwen am hwylusydd i gynnal gweithdai wedi'u seilio ar lenyddiaeth a'r hinsawdd ym Methesda, a hynny fel rhan o'r prosiect Llên mewn Lle.





Dathlu'r Bardd Cenedlaethol, Hanan Issa, mewn gŵyl ryngwladol




Creu ffilm farddoniaeth fer, newydd fel rhan o'r prosiect Darn wrth Ddarn




Nia Morais yn rhyddhau ei cherdd gyntaf fel Bardd Plant Cymru




Alex Wharton yn rhyddhau ei gerdd gyntaf fel Children's Laureate Wales



Siôn Tomos Owen yn rhannu ei brofiad o hwyluso prosiect ar thema'r hinsawdd mewn blog newydd.



Credyd Llun: FA Wales

Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n cefnogi'r alwad am opsiynau Cymraeg ar gemau fideo.

## Gweithrediadau

- Yn dilyn gwahoddiad agored yn y chwarter diwethaf, mae'r gwaith wedi'i gwblhau i ddiweddaru Rhestr o Gyflenwyr a Ffefrir Llenyddiaeth Cymru. Gall staff ddefnyddio'r rhestr hon i chwilio am unigolion neu gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau fel cyfieithu, ffotograffiaeth a glanhau.
- Cymerodd aelodau'r staff a llysgenhadon Llenyddiaeth Cymru ran mewn diwrnod hyfforddiant ym maes y cyfryngau. Roedd yr hyfforddiant yn ymarferol ac yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr ymarfer at gyfweliadau ac ymddangosiadau ar y teledu, gan drafod sut i gyfathrebu prif negeseuon Llenyddiaeth Cymru.
- Fis Hydref, croesawyd Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru i Dŷ Newydd ar gyfer cyfarfod wyneb yn wyneb o'r Bwrdd (#51) a'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol.
- Mae Swyddfa Caerdydd wedi cael system ffôn ddigidol newydd sy'n defnyddio meddalwedd 8x8. Bydd y system hon yn galluogi'r staff i ateb, trosglwyddo a gwneud galwadau wrth weithio o bell.
- Agorodd y broses recriwtio ar gyfer swydd y Cydlynydd Digwyddiadau a Chyfathrebu, a chafwyd nifer o geisiadau cryf. Bydd y cyfweliadau ar gyfer y swydd yn cael eu cynnal fis Ionawr.
- Parhaodd y staff i rannu cyflwyniadau am effaith prosiectau yn ystod cyfarfodydd y staff. Roedd cyflwyniadau'r chwarter hwn yn cynnwys rhai am Wobr Llyfr y Flwyddyn, Cynrychioli Cymru, a Nodyn ar Natur.
- Fis Rhagfyr, gwnaeth y staff y gwaith blynyddol o adolygu a diwygio'r holl bolisïau mewnol.
- Cyflwynodd Llenyddiaeth Cymru ei Adroddiad Blynyddol a'i Ddatganiadau Ariannol Archwiliedig ar gyfer 2022-23 i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Ein lle yn y Sector

Hyd yma eleni, mae'r tîm wedi cofnodi 580 awr o weithgareddau sy'n rhoi cymorth i'r sector, gan ragori'n fawr ar ein targedau. Mae'r holl staff yn amlwg yn deall pwysigrwydd bod yn rhan o sector cysylltiedig a manteision cefnogi sefydliadau eraill ynghyd â chael cyngor er mwyn i'n gwaith ein hunain gael mwy o effaith.

Er enghraifft, rydyn ni'n ceisio sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd yn agosach â gwaith Cyngor Llyfrau Cymru. Mae ein staff, Miriam S a Mared, wedi bod yn rhan o'u paneli grantiau er mwyn rhoi'r cyd-destun wrth drafod awduron rydyn ni wedi gweithio gyda nhw. At hynny, mae staff y Cyngor Llyfrau wedi cyfrannu at broses recriwtio'r Bardd Plant, ac wedi bod yn rhan o baneli Cynrychioli Cymru. Dyma un ffordd yn unig y mae ein sefydliadau'n gweithio'n agos gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gyson. Rydyn ni'n awyddus i ehangu hyn dros y flwyddyn nesaf, ac wrthi'n ailddrafftio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Gwelwyd tystiolaeth o barch cynyddol tuag atom, fel partneriaid da ac arbenigwyr mewn digwyddiadau llenyddol, a hynny'n sgil ceisiadau niferus i roi cymorth i brosiectau sydd ar y gweill. Rydyn ni'n cefnogi amrywiaeth o brosiectau, o raglen hyfforddiant Tŷ Cerdd ar gyfer cyfansoddwyr sioeau cerdd a libretyddwyr Cymraeg i'r prosiect Transformative Research Actions for Resilient Coastal Communities (TRACC), sef prosiect ledled y Deyrnas Unedig sy'n canolbwyntio yng Nghymru ar erydu arfordirol ym Mae Ceredigion, dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r prosiect Newid Diwylliant wedi bod yn mynd yn ei flaen, ac wedi dewis y cais llwyddiannus ar gyfer y tendr Hyfforddiant. Mae Claire bellach yn rhan o weithgor y prosiect, a bydd hi'n sicrhau bod y prosiect hwn yn cael effaith er budd Llenyddiaeth Cymru a'r sector ehangach. Mae Emily hefyd yn rhan o'r gweithgor, ac yn rhan allweddol o grŵp Ffrindiau Beirniadol y prosiect. Dros y misoedd nesaf, bydd Llenyddiaeth Cymru yn elwa o becyn hyfforddiant dwys gyda'r nod o feithrin diwylliant sefydliadol ac arferion recriwtio gwrth-hiliol, a dylai hynny ddatblygu ar y gwaith rydyn ni wedi'i wneud hyd yma.



Staff Llenyddiaeth Cymru yn cefnogi agoriad Nyth, canolfan ddiwylliannol a chymunedol FRÂN WEN ym Mangor. Cydnabyddiaeth y llun: FRÂN WEN

# Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Datblygu Awduron**

Datblygu a chefnogi gweithlu medrus sy'n cynnig gweledigaeth yn y sector llenyddol, drwy ddarparu cyfleoedd, cynyddu potensial, a hyrwyddo arferion cyflogaeth teg

## Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Yn Chwarter 3, cynhaliwyd amryw o gyrsiau cyhoeddus wythnos o hyd yn Nhŷ Newydd. Roedd y rhain yn cynnwys Ysgrifennu Ffuglen Trosedd gyda Thro yn y Gynffon, Ysgrifennu am Fwyd, ac Y Llais a'r Lleisiau. Arweiniwyd y sesiynau hyn gan diwtoriaid profiadol fel Alis Hawkins, Clare Pollard, Owen Sheers a Katherine Stansfield, a chafwyd effaith amlwg ar ddatblygiad yr awduron hyn:

> "Roedd y ddau diwtor yn hynod o hael â'u hamser, yn rhoi adborth uniongyrchol, ac yn gymorth eithriadol i mi ddatblygu fel awdur
>
> Roedd yn hwb a hanner i fy hyder creadigol
>
> Roedd y cyfarfodydd un-i-un yn agored ac yn ddefnyddiol iawn, ac yn gymorth mawr i mi ysgrifennu ar gyfer pobl eraill ac er mwyn fy natblygiad fy hun."

Dechreuwyd Chwarter 3 yn llawn cyffro wrth [gyhoeddi ein rhaglen o gyrsiau ysgrifennu creadigol ac encilion yn 2024.] Yn ystod y flwyddyn, byddwn ni'n croesawu awduron sy'n gweithio mewn pob math o genres ac ieithoedd, a'r rheini'n cael cymorth awduron hynod o fedrus a mawr eu bri. Bydd y beirdd Gillian Clarke a Helen Mort yn helpu i ddatblygu nifer o grefftwyr geiriau newydd, tra bydd Clare Mackintosh yn helpu pobl i greu straeon trosedd carlamus newydd.

## Cyrsiau strategol

Mae ein cyrsiau strategol yn cynnig llefydd am ddim i awduron y mae'u lleisiau wedi'u tangynrychioli yn sîn lenyddol Cymru ar hyn o bryd.

Ym mis Tachwedd, fe wnaethon ni groesawu 14 o awduron Cymraeg o'r gymuned LHDTCA+ i benwythnos creadigol yn Nhŷ Newydd. Ymhlith yr hwyluswyr creadigol a'r darllenwyr gwadd roedd Leo Drayton, Llio Maddocks a Paul Mendez (yn y llun ar y dde).




Fis Rhagfyr, mwynhaodd 11 o awduron rhwng 18 a 24 oed benwythnos o weithdai gyda'r awduron mawr eu parch, Mared Llywelyn ac Iestyn Tyne, a hynny ar ôl ennill, neu dod yn agos i'r brig, yn un o gystadlaethau llenyddol yn gynharach yn y flwyddyn yn Eisteddfod yr Urdd.

Cyhoeddwyd dwy bartneriaeth bellach a'r rheini'n cynnig rhagor o gyfleoedd i ddatblygu awduron.
Cwrs peilot rhad ac am ddim, sy'n para blwyddyn, yw Pencerdd. Mae'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â Barddas, ac yn rhoi cyfle i bump o feirdd sy'n newydd neu'n gymharol newydd i gynganeddu hogi eu crefft.

A chan weithio mewn partneriaeth â Kathod, bydd y tiwtoriaid Rufus Mufasa, Branwen Munn a Jaffrin Khan yn cynnal cwrs preswyl aml-ffurf i fenywod ac unigolion sydd â rhyweddau ar y cyrion ac sydd â diddordeb mewn cyfuno cerddoriaeth a pherfformio barddoniaeth yn ystod gwanwyn 2024.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



Uchafbwynt wrth gyflawni nod:
**Datblygu Awduron**

Datblygu a chefnogi gweithlu medrus sy'n cynnig gweledigaeth yn y sector llenyddol, drwy ddarparu cyfleoedd, cynyddu potensial, a hyrwyddo arferion cyflogaeth teg

## Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad

Fis Tachwedd, dechreuwyd cyfres o chwe chyfarfod ar-lein i gyfranogwyr gyda'r ddramodwraig a'r awdur Kaite O'Reilly, sydd wedi cael llwyddiant rhyngwladol. Cyfle wedi'i drefnu mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru oedd hwn, yn ceisio helpu awduron Byddar a/neu Anabl o Gymru sy'n gweithio mewn amrywiaeth o genres.

Yn ystod pob sesiwn, anogwyd yr awduron i herio stereoteipiau presennol drwy ystyried naratifau newydd, ailddyfeisio prif gymeriadau, rhoi diweddglo annisgwyl i'w gwaith, a defnyddio dulliau arloesol, newydd o ysgrifennu. Ar ôl cwblhau'r gweithdai, bydd pob awdur yn cael rhagor o gymorth yn Chwarter 4 drwy sesiynau un-i-un gyda Kate, lle byddan nhw'n trafod eu cynnydd unigol ac unrhyw rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu. Darllenwch fwy am bob un o'r awduron llwyddiannus ar ein gwefan.



Mae'r llun yn dangos y deg awdur llwyddiannus a fu'n rhan o raglen Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad.

## 'Sgwennu'n Well

Yn haf 2023, cafodd Llenyddiaeth Cymru 50 o geisiadau ar gyfer y cynllun Sgwennu'n Well. Nod Sgwennu'n Well yw datblygu hwyluswyr llenyddol i greu a darparu prosiectau cyfranogol sydd o fudd i iechyd a llesiant cyfranogwyr drwy Gymru. Mae'r rhaglen wedi'i rhannu ddau hanner: chwe mis o hyfforddiant dwys i ddatblygu sgiliau ymarferol ac i gynnig syniadau am brosiectau, a'r chwe mis dilynol i ymchwilio i bartneriaid addas a allai roi cyllid i brosiectau.

Yn Chwarter 3, cyfarfu'r chwe unigolyn llwyddiannus yn Nhŷ Newydd ar gyfer encil Barddoniaeth a Llesiant gyda'r tiwtoriaid Jill Teague a clare e. potter. Cafodd y grŵp fwynhau gweithdai am therapi barddoniaeth ac ysgrifennu ym myd natur, ac ymunodd y siaradwyr gwadd, Iola Ynyr a Patrick Jones, â nhw. Wrth gnoi cil am y penwythnos, meddai un hwylusydd:

> "Cafodd yr encil effaith mor gadarnhaol ar fy llesiant, hyd yn oed fisoedd wedyn. Roedd yn brofiad mor braf a llesol, ac roedd cael cwrdd â phobl o gyffelyb fryd yn deimlad arbennig. Fe wnes i fwynhau'r therapi barddoniaeth yn arw, ac rydw i wedi'i ddefnyddio fy hun ers hynny, gan ddefnyddio'r cerddi a roddwyd i ni ar y cwrs"

Drwy gydol Chwarter 3, mae'r grŵp o awduron wedi cymryd rhan mewn dwy sesiwn arall. Roedd y naill yn trafod sut i greu cynlluniau cadarn ar gyfer eu prosiectau gyda Kate North, a'r llall yn ymwneud â materion diogelu sy'n berthnasol i awduron gyda Lucy Windridge-Floris. Mae'r holl hwyluswyr bellach wedi cael eu paru â mentor, gyda rhai wedi cwrdd eisoes. Mae tair sesiwn hyfforddiant arall i'w cynnal yn Chwarter 4. Gallwch ddarllen mwy am bob hwylusydd a'u mentoriaid ar dudalen y prosiect fan hyn.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Yr Argyfwng Hinsawdd:** Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Parhau i ddarparu cynllun **Llên mewn Lle,** gan roi cyfleoedd i feirdd lleol amlwg ddatblygu gwaith yn eu cymunedau lleol, a hwnnw'n rhoi sylw i faterion sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd drwy lenyddiaeth. | Yn mynd rhagddo: Mae'r tri phrosiect ar y trywydd iawn.<br><br>Mae LUMIN, yn Abertawe, yn casglu ac yn golygu antholeg o waith i'w gyhoeddi yn 2024 gyda phartner lleol, Ways of Working.<br><br>Parhaodd Gwledda, sy'n cael ei gynnal Iola Ynyr, i weithio gydag oedolion a phlant yn Cae'r Gors, Rhosgadfan, a chynhaliwyd digwyddiad i ddathlu fis Rhagfyr. Bydd ei phrosiect yn dod i ben yn Chwarter 4, wrth ddadorchuddio cerflun newydd i ddathlu'r prosiect.<br><br>Fel rhan o Croeso i'n Coedwig, cwblhaodd Siôn Tomos Owen ddyddiadur wedi'i ddarlunio ar gyfer y prosiect. Mae'r prosiect wedi parhau i gael ei ddarparu'n uniongyrchol (y tu hwnt i'n cyllid cychwynnol) ac mae'r straeon a gasglwyd yn ystod oes y prosiect yn dod ynghyd i greu map digidol a fydd yn cyd-fynd â llwybr cerdded go iawn sydd wedi'i greu yn y goedwig. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Datblygu a gwerthuso prosiectau grŵp o awduron 1, a recriwtio grŵp o awduron 2, mewn partneriaeth â WWF. | Ar y trywydd iawn i'w gwblhau. Cwblhawyd y gwerthusiadau cychwynnol ar gyfer grŵp 1 yn Chwarter 1. Mae rhagor o waith gwerthuso wedi'i gynllunio yn Chwarter 4 pan fydd yr holl weithgareddau wedi dod i ben.<br><br>Recriwtio: Yn Chwarter 3, hysbysebodd Partneriaeth Ogwen, y partner lleol, alwad leol am artist i weithio ym Methesda. Yn ystod wythnos gyntaf yr alwad, mynegodd tri ymatebwr gryn ddiddordeb. Bydd y rheini sydd wedi cofrestru diddordeb yn cael eu gwahodd yn ffurfiol i wneud cais am y gwaith yn Chwarter 4.<br><br>Mae'r staff wedi parhau i weithio gyda WWF Cymru, ac yn benodol â'u rheolwr prosiectau Wholescapes, sydd wedi bod yn gweithio'n galed i ganfod rhanddeiliaid yn Sir Benfro. Cysylltwyd ag EcoDewi, y grŵp cynaliadwyedd cymunedol, i fod yn bartner lleol, a bydd y staff yn cwrdd â'r grŵp yn Chwarter 4. | |
| Canolbwyntio ar greu prosiectau lleol a datblygu cysylltiadau â'r gronfa Ysbrydoli Cymunedau, yn ogystal â chyhoeddi canllawiau am gynnal gweithgareddau llenyddol cynaliadwy. | Yn mynd rhagddo: Yn y chwarter hwn, parhaodd y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i hyrwyddo datblygiad awduron. Cefnogodd Llenyddiaeth Cymru weithdy 'Pam Ysgrifennu' yng Nghaergybi drwy Gymdeithas Lenyddol Ucheldre. Bu Taz Rahman, un o gyn-aelodau grŵp o awduron Cynrychioli Cymru, yn cyd-gyflwyno digwyddiad gan awduron cyhoeddedig i ddangos beth Planet Magazine ei wneud. Cefnogodd y gronfa hefyd lansiad blodeugerdd gyntaf Newport Stanza i gynulleidfa o 40 o unigolion.<br><br>Adnoddau: Mae Iola Ynyr wedi datblygu canllawiau ar gyfer cynnal gweithgareddau llenyddol cynaliadwy. Mae'r ddogfen i'w gweld ar dudalen prosiect Llên mewn Lle fan hyn a bydd yn cael ei rhannu drwy ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol yn Chwarter 4. Mae Siôn Tomos Owen yn datblygu canllawiau ar sail ei brofiad o gynnal prosiect ar thema'r hinsawdd, a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn Chwarter 4. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Iechyd a Llesiant**: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Ehangu a datblygu ein partneriaethau cryf yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, y Reading Agency, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. | Yn mynd rhagddo: Mae partneriaethau yn y maes iechyd a llesiant wedi parhau i ehangu yn ystod y chwarter hwn wrth i ni ddal ati i gydweithio ar brosiectau a chynlluniau. Fel yn achos chwarteri blaenorol, mae hyn yn cynnwys aelodau o staff yn mynychu cyfarfodydd grŵp llywio Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru a grŵp sy'n goruchwylio llesiant artistiaid (a hwnnw'n cynnwys staff o Llenyddiaeth Cymru a Met Caerdydd ynghyd ag ymgynghorydd llawrydd). Mae ein partneriaeth hirdymor â Mind Casnewydd yn parhau i gryfhau, gyda gweithgareddau ychwanegol o dan brosiect Darn wrth Ddarn wedi'u heangu i ail hanner eleni. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Darparu'r prosiect peilot, **Sgwennu'n Well,** gan feithrin 6 hwylusydd o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli a'u helpu i ddatblygu eu hymarfer mewn prosiectau partneriaeth Iechyd a Llesiant. | Ar y trywydd iawn: Fis Hydref, daeth grŵp o 6 o hwyluswyr o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli i encil rhad ac am ddim yn Nhŷ Newydd ar thema barddoniaeth ac ysgrifennu er llesiant. Mae'r ddwy sesiwn gyntaf i ddatblygu artistiaid wedi'u cynnal ar Zoom ac mae nifer o'r grŵp wedi cael eu sesiynau cyntaf gyda'u mentoriaid hefyd. Bydd y sesiynau hyn yn parhau yn Chwarter 4, lle bydd yr hwyluswyr yn dechrau datblygu eu prosiectau cyfranogol sydd i'w darparu yn 2024-25. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** : Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Darparu trydedd rownd Cynrychioli Cymru, a recriwtio i'r bedwaredd rownd, gan fuddsoddi'n ddwys mewn 28 o awduron, gyda phob un yn cynrychioli cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn Niwylliant Llenyddol Cymru. | Yn mynd rhagddo. Mae 14 o awduron yn cael cymorth dwys yn nhrydydd rownd y cynllun. Yn Chwarter 3, mwynhaodd y grŵp o awduron wyth sesiwn gan gynnwys gweminar am weithio gyda darlunwyr a sesiwn ddilynol am ysgrifennu llythyrau cefndir gyda The Good Literacy Agency. Maen nhw'n parhau i gwrdd ac yn parhau i gael cymorth gan eu mentoriaid.<br>Yn Chwarter 2, caeodd galwad Cynrychioli Cymru. Cafwyd 141 o geisiadau cymwys ac wyth o geisiadau anghymwys. Yn Chwarter 3, creodd Anwen Hooson, cadeirydd y panel, restr fer o 33 o geisiadau i'w hystyried gan aelodau eraill y panel. Cafodd y ceisiadau hyn a gyrhaeddodd y rhestr fer eu rhoi i dri aelod arall y panel (Angela Hui, Brennig Davies a Raymond Antrobus) fis Rhagfyr er mwyn iddyn nhw eu hasesu'n unigol.<br>Bydd y panel yn cwrdd yn rhithwir yn Chwarter 4 i benderfynu ar yr 14 awdur llwyddiannus ynghyd â'r tri ail orau. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Drwy Cynrychioli Cymru, ymwneud â thua 300 o unigolion fel rhan o'r rhaglen ehangach. | Yn annhebygol o gyflawni: Mae 190 o unigolion wedi ymwneud â'r chwe sesiwn gyhoeddus hyd yma. Mae un sesiwn agored arall wedi'i chynllunio yn Chwarter 4. | |
| Monitro esblygiad y rhaglen a'i heffaith hirdymor, gan gynnwys ymwneud â'r grwpiau presennol o awduron. | Yn mynd rhagddo: Yn Chwarter 1, cwblhawyd y gwaith mentora ôl-ofal gyda grŵp cyntaf o awduron Cynrychioli Cymru, gyda'r awduron a'r mentoriaid yn awgrymu bod rhaglen Cynrychioli Cymru wedi arwain at greu perthnasau cadarnhaol ac effeithiol. Yn Chwarter 2, bu pump aelod o'r ail grŵp o awduron yn Niwrnod Diwydiant Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli, a hynny'n rhad ac am ddim. Yn Chwarter 3, mwynhaodd deuddeg o aelodau grŵp o awduron 2022/23 benwythnos preswyl "Llwybrau i Gyhoeddi" yn Nhŷ Newydd, a hynny gyda'r tiwtor Julia Forster. Byddwn ni'n parhau i gadw mewn cysylltiad â'r awduron, gan gynnig cymorth ysgafn pan fydd hynny'n berthnasol a chadw golwg ar eu cynnydd. | |
| Marchnata o leiaf 1 darn o farchnata drwy gyfrwng BSL ar gyfer prosiect cyn diwedd y flwyddyn, ac asesu i ganfod effaith hynny. | Wedi'i gyflawni. Yn Chwarter 2, crëwyd taflen BSL ddwyieithog ar gyfer galwad Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad, mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru. Gwelwyd fersiwn Gymraeg y daflen 3 gwaith a'r fersiwn Saesneg 30 gwaith i gyd. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Diwylliant Llenyddol Cymru:** Sicrhau ymgysylltiad ehangach, gwell hygyrchedd a rhagor o effaith ar gyfer gweithgareddau ysgrifennu creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Cwmnïau Cenedlaethol i ddylunio a darparu rhaglen newydd o'r enw **Newid Diwylliant,** a fydd yn cynnwys hyfforddiant ac ymchwil i sicrhau gwell amrywiaeth ymhlith arweinwyr. | Yn mynd rhagddo: Mae'r ffrindiau beirniadol wedi cwrdd ddwywaith. Gyda'i gilydd, eu cyngor oedd y dylid cael proses dendro ar gyfer y Rhaglen Hyfforddiant Newid Diwylliant. Creu a darparu hyfforddiant gwrth-hiliol i sefydliadau celfyddydol yng Nghymru fydd nod y gwaith hwn, ac roedd modd ymgeisio am y tendr drwy gydol Chwarter 3. Mae'r grŵp hefyd wedi trafod tendr cyfathrebu, a fydd yn agor i geisiadau yn Chwarter 4. | |
| Cynnull partneriaid llenyddol, fel Cyngor Llyfrau Cymru a Cyhoeddi Cymru, i ddatblygu cynllun ar gyfer prosiect partneriaeth hirdymor a fydd yn canfod ac yn hyfforddi mwy o awduron Cymraeg sy'n cael eu tangynrychioli gyda'r nod o gyhoeddi llyfrau i blant a phobl ifanc. | Heb ei gyflawni. Serch hynny, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal â'r partneriaid hyn, ac mae cynlluniau i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru eleni. Bydd tangynrychiolaeth a chydweithio wrth droi ysgrifenwyr yn awduron cyhoeddedig yn ganolog i'r ddogfen hon. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Dadansoddi'r canfyddiadau perthnasol o'r Arolwg Rhanddeiliaid, cyflwyno'r canfyddiadau i staff, a chynnal cyfarfod i drafod y camau y mae angen eu cymryd. | Wedi'i gwblhau: Cyflwynwyd canfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid i staff ym mis Mehefin, a thrafodwyd syniadau wedyn mewn cyfarfod creadigol. Yn Chwarter 3, cynhaliwyd trafodaeth fewnol am gynnal arolygon ymhlith rhanddeiliaid yn y dyfodol. Gwnaed y penderfynid i adolygu'r cwestiynau'n fwy trylwyr er mwyn penderfynu pa gwestiynau y gellid eu tracio dros gyfnod hwy o amser, yn hytrach nag ymateb i un flwyddyn ariannol yn unig. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Y Gymraeg:** Ymrwymo i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Penodi Bardd Plant Cymru newydd a fydd yn ymrwymo o leiaf 25 o ddiwrnodau'r flwyddyn (13 pro rata yn 23/24) i ddarparu gweithgareddau creadigol i blant Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ar y trywydd iawn: Mae Nia Morais, Bardd Plant newydd Cymru, wedi darparu 6 diwrnod arall o weithgareddau creadigol drwy gyfrwng y Gymraeg yn Chwarter 2. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau mewn ysgolion yng Nghaerfyrddin i nodi Diwrnod T Llew Jones a sesiynau mewn ysgolion yn Sir y Fflint a Chonwy fel rhan o Ŵyl Gerallt. Gan gynnwys y diwrnodau y mae hi wedi'u treulio'n gweithio ar gerddi comisiwn a hyrwyddo, a'r diwrnodau yn Chwarter 2, cyfanswm diwrnodau gweithio Nia dros y flwyddyn yw 10.5 diwrnod, sydd ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed o 13 diwrnod pro rata yn 23/24. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Sicrhau bod o leiaf 10 o awduron Cymraeg yn cael cyfleoedd datblygu dwys, hirdymor yn 23/24 (e.e. drwy Cynrychioli Cymru neu Sgwennu'n Well). | Ar y trywydd iawn: Mae naw o bobl wedi ymwneud â ni hyd yma. Mae'r pedwar awdur Cymraeg sy'n rhan o raglen bresennol Cynrychioli Cymru a'r tri awdur Cymraeg sy'n rhan o raglen newydd Sgwennu'n Well wedi parhau i gael cyfleoedd datblygu dwys drwy'r rhaglenni hyn. Cymerodd dau awdur Cymraeg ran yn y cwrs digidol, 'Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad', sy'n cynnwys pump o gyfarfodydd ar-lein ac un tiwtorial un-i-un. Bydd Celfyddydau Anabledd Cymru, sy'n hwyluso'r rhaglen gyda Llenyddiaeth Cymru, yn arwain y gwaith o ddarparu rhaglen ôl-ofal i'r awduron er mwyn helpu i feithrin cymuned gefnogol a chyfeirio awduron at gyfleoedd perthnasol. | |
| Trefnu cwrs dysgu Cymraeg penodol i ddechreuwyr ar gyfer awduron sy'n gweithio'n ddwys gyda ni ar amrywiaeth o brosiectau. | Wedi'i gwblhau: Mae dau gwrs dysgu Cymraeg penodol, a'r rheini wedi'u cynnal mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, wedi'u cynnal eleni. O blith awduron sydd wedi gweithio gyda ni ar brosiectau fel Cynrychioli Cymru, y Cwrs i Egin Awduron, a'r rhaglen Sgwennu'n Well, cymerodd 10 ran mewn cwrs Mynediad a chymerodd tri arall ran mewn cwrs Sylfaen. Bydd yr holl awduron yn mynychu cwrs preswyl wythnos o hyd yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ddiwedd mis Ionawr 2024. | |
| Lansio galwad am raglen ddatblygu newydd sbon, Pencerdd, i roi cyfleoedd datblygu dwys i 6 bardd newydd yng nghrefft y gynghanedd, mewn partneriaeth â Barddas. | Wedi'i gwblhau: Lansiwyd y rhaglen Pencerdd yn gyhoeddus ddiwedd mis Tachwedd, gyda gwahoddiad i feirdd Cymraeg wneud cais i'r rhaglen. Bydd y broses ymgeisio'n cau ddechrau mis Ionawr, a bydd pump o feirdd yn cael eu dewis wedyn ar gyfer y rhaglen flwyddyn o hyd sy'n dechrau ym mis Mawrth 2024. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

## Mesur Gweithrediadol: Tŷ Newydd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cynnal o leiaf 3 encil preswyl yn rhad ac am ddim yn Nhŷ Newydd, neu'n rhithwir o dan faner Tŷ Newydd, i grwpiau o awduron sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnig gweithdai i ddatblygu eu crefft a'u gyrfaoedd. Ymhlith y grwpiau fydd awduron anabl, awduron LHDTC+, awduron Cymraeg, awduron benywaidd o liw, a rhagor. | Wedi'i gwblhau: Yn 2023, cynhaliwyd tri encil rhad ac am ddim yn Nhŷ Newydd, ac yn eu plith ein cwrs Nodyn ar Natur i awduron benywaidd o liw, encil dros benwythnos i awduron LHDTCA+ Cymraeg, a dosbarth meistr Cymraeg dros benwythnos i bobl 18-25 oed mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru. Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni hefyd wedi cynnal cwrs digidol mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru, ac mae disgwyl i hwn ddod i ben ym mis Chwefror 2024. Yn achos yr holl weithgareddau uchod, bydd Llenyddiaeth Cymru'n parhau i gefnogi'r awduron a dod o hyd i gyfleoedd mewnol ac allanol iddyn nhw. | Cofnodion Tŷ Newydd |
| Cynnig o leiaf 10 ysgoloriaeth i awduron sy'n cael eu tangynrychioli i fynd ar gwrs, neu i gael encil, yn Nhŷ Newydd/Nant. | Wedi'i gwblhau: Hyd yma, rydyn ni wedi cynnig pymtheg ysgoloriaeth i awduron sy'n cael eu tangynrychioli i fynd ar gwrs neu encil yn Nhŷ Newydd. | |
| Trefnu encil penwythnos LHDTCA+ Cymraeg yn Nhŷ Newydd. | Wedi'i gwblhau: Fe wnaethon ni groesawu 14 o awduron Cymraeg o'r gymuned LHDTCA+ i'n hencil dros benwythnos a drefnwyd mewn partneriaeth â Llyfrau Lliwgar ym mis Tachwedd 2023. Ymhlith yr hwyluswyr creadigol a'r darllenwyr gwadd roedd Leo Drayton, Llio Maddocks a Paul Mendez. | |
| Lansio galwad am gyfranogwyr Cymraeg sy'n arddel rhywedd sydd ar y cyrion i gymryd rhan mewn cwrs yn Nhŷ Newydd i ddatblygu sgiliau perfformio barddoniaeth | Wedi'i gwblhau: Rydyn ni wedi lansio galwad mewn partneriaeth â chydweithfa Kathod ar gyfer gweithwyr creadigol ac artistiaid benywaidd a'r rheini sydd â rhyweddau ar y cyrion. Bydd y rhain yn dod ynghyd i gyfuno barddoniaeth lafar a cherddoriaeth mewn ffyrdd newydd a chyffrous. Mae disgwyl i'r encil gael ei chynnal ddiwedd mis Chwefror 2024. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

## Mesurau sefydliadol: Adnoddau Dynol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ablaeth. | Yn annhebygol o gyflawni: Mae 2 aelod o staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth a rhagfarn ddiarwybod, ac mae rhai Ymddiriedolwyr a'r holl aelodau o staff wedi cymryd rhan mewn sesiwn hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i gynnal i roi trosolwg o lywodraethu i'r Uwch Dîm Arwain a'r Ymddiriedolwyr.<br><br>Yn Chwarter 1 24/25, o dan y rhaglen Newid Diwylliant rydyn ni'n rhan ohoni, bydd hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ableddiaeth yn cael ei roi, a hwnnw'n canolbwyntio'n benodol ar y celfyddydau. Roedden ni'n bwriadu comisiynu rhywfaint o hyfforddiant i'r tîm, ac felly er mwyn peidio â dyblygu gwaith/costau, bydd rhai aelodau o staff yn gallu cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn ac yn rhannu'r hyn y byddan nhw'n ei ddysgu â'r tîm. Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd hyfforddiant eraill er mwyn i'r staff ddatblygu arbenigedd a sgiliau, gan rannu hynny â'r tîm ehangach. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Cefnogi o leiaf 2 aelod o staff nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg (neu sy'n ddysgwyr newydd) ac sydd heb ymweld â'r Eisteddfod o'r blaen i fynychu, drwy eu hebrwng a hwyluso'u hymweliad | Wedi'i gwblhau: Ymwelodd dau aelod o staff sy'n dysgu'r Gymraeg ag Eisteddfod yr Urdd yn Chwarter 1 i ddarparu gweithgareddau, gyda chymorth cydweithwyr.<br><br>Ymwelodd dau aelod o staff sy'n dysgu'r Gymraeg â'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2023, sef Claire Furlong am yr ail waith ac Emily Dafydd-Drew am y tro cyntaf. Cawson nhw gymorth Mared Roberts a Miriam Sautin i fynd i ddigwyddiadau a chwrdd ag artistiaid a rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector, yn ogystal â mynd i noson gomedi i ddysgwyr Cymraeg, lle roedden nhw'n deall y jôcs (neu'r rhan fwyaf ohonyn nhw, beth bynnag). | |
| Darparu hanner diwrnod o hyfforddiant mewnol i staff sy'n rhugl eu Cymraeg i ymarfer a datblygu naws llais Llenyddiaeth Cymru wrth lunio negeseuon cyfathrebu yn Gymraeg. | Ar y gweill: Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i ddiweddaru dogfen Arddull Tŷ a Llais Llenyddiaeth Cymru, gyda'r nod o roi mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r llais a'r iaith orau ar gyfer y gynulleidfa darged. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, bydd sesiwn hyfforddiant yn cael ei cynnal gyda'r holl dîm. Bydd hyn yn cael ei gwblhau cyn diwedd Chwarter 4. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Gweithredol

## Uchafbwyntiau Chwarter 3

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | **Cynnydd o flwyddyn hyd yma** | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Yn raddol, lleihau nifer y tudalennau ar y wefan a 'glanhau' hen dudalennau sy'n ddiangen bellach. | Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi dechrau'r broses o lanhau'r wefan drwy gael gwared ar hen dudalennau a thudalennau diangen. Bydd hyn yn helpu i leihau "pwysau" digidol y wefan, a bydd modd ei defnyddio yn gyflymach ac yn rhwyddach. Oherwydd maint y dasg, bydd hyn yn rhywbeth a fydd yn mynd rhagddo'n barhaus, ond mae sesiwn arall wedi'i threfnu ym mis Chwefror 2024. | Google Analytics |
| 50% o diwtoriaid cyrsiau 2023/24 a 2024/25 i fod yn Gymry a/neu yn byw yng Nghymru | Mae Tŷ Newydd yn parhau i ragori ar y targed hwn wrth raglennu amrywiaeth eang o gyrsiau yn y ganolfan ysgrifennu – yn rhai digidol ac yn rhai wyneb yn wyneb. Mae 79% o diwtoriaid rhaglen eleni (2023-24) yn Gymry a/neu yn byw yng Nghymru. Er y bydd y ffigur hwn yn gostwng fymryn, byddwn ni'n parhau i ragori ar ein targed o 50% yn ystod rhaglen 2024-25, sydd wedi'i chyhoeddi'n diweddar, gyda 61% o diwtoriaid y cyrsiau yn Gymry a/neu yn byw yng Nghymru. | Rhaglen TN |
| Pob aelod o staff i roi cyfartaledd o 15 awr o gymorth nad yw'n ariannol | Mae staff Llenyddiaeth Cymru yn dal i wneud gwaith rheolaidd sy'n cynorthwyo'r sector. Yn Chwarter 3, cofnodwyd 189 awr o gymorth, gyda 108.5 awr o roi gwybodaeth ac 80.5 awr o gael gwybodaeth. Mae hyn yn golygu bod ein cyfanswm am y flwyddyn yn 542 awr o gymorth nad yw'n ariannol, sy'n cyfateb i 28 awr gan bob aelod o staff. Mae hyn eisoes yn rhagori ar ein targed o 15 awr ar gyfartaledd gan bob aelod o staff yn ystod y flwyddyn, ac mae tri mis yn dal ar ôl yn y flwyddyn ariannol. | Log Cymorth i'r Sector |
| Ymgynghoriad ymhlith y staff ynghylch gweithdrefnau a chamau rheoli ariannol – yr holl staff i gymryd rhan | Rhannwyd holiadur am weithdrefnau ariannol â'r staff ar 8 Rhagfyr. Mae'r holl aelodau o staff wedi cwblhau'r arolwg erbyn hyn, gan gyfrannu at yr ymgynghoriad. Byddwn ni'n dadansoddi'r ymatebion yn y flwyddyn newydd, a bydd hynny'n bwydo i'r broses o ddiweddaru ein gweithdrefnau ariannol a'n cynlluniau hyfforddiant at y dyfodol. | Canlyniadau'r ymgynghoriad |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Gweithredol

## Targedau a fethwyd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Canfod a mapio sefydliadau sy'n rhanddeiliaid | Er nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto i ganfod a mapio sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, mae fframwaith wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r fframwaith hwn, a fydd yn canfod rhanddeiliaid fesul prosiect, wedi'i dreialu ar gyfer Gwobr Llyfr y Flwyddyn, a bydd yn cael ei adolygu er mwyn symleiddio'r broses. Mae cynlluniau ar y gweill i rannu hwn â'r staff ddechrau 2024 er mwyn canfod a mapio rhanddeiliaid holl brosiectau Llenyddiaeth Cymru. | Tystiolaeth o Ddogfen |
| Parhau i ystyried cynlluniau cyflogaeth posibl a fyddai'n gallu cyflwyno mwy o amrywiaeth i'r tîm, a rhoi'r rhain ar waith pan fydd hynny'n berthnasol | Nid oes unrhyw gynlluniau cyflogaeth newydd wedi'u defnyddio eleni, ac nid oes unrhyw gynlluniau i wneud hynny yn Chwarter 4 chwaith. Mae hyn yn rhannol oherwydd y penderfyniad i gadw a pharhau i hyfforddi aelod o staff a oedd yn cael ei gyflogi'n wreiddiol drwy gynllun prentisiaeth Hyfforddiant Cambrian, yn hytrach na chael prentis newydd. Rydyn ni hefyd wedi penderfynu peidio â defnyddio cynllun Interniaethau Creadigol Celfyddydau a Busnes eleni, gan nad oedd amserlen y cynllun yn cyd-fynd â'n proses recriwtio ni ar gyfer Uwch Swyddog Codi Arian. Serch hynny, byddwn ni'n parhau i ystyried cynlluniau cyflogaeth posibl yn y dyfodol wrth i'r rheini ddod i'r amlwg. | Nodiadau o'r cyfarfod chwarterol |
| Arolwg rhanddeiliaid blynyddol gydag o leiaf 200 o ymatebwyr | Ar ôl adolygu pa mor ddefnyddiol oedd arolwg rhanddeiliaid y llynedd, mae'r Tîm Effaith wedi penderfynu gohirio'r amserlen ar gyfer yr arolwg rhanddeiliaid nesaf. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried y cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n cael adborth sy'n wirioneddol ddefnyddiol wrth greu a chyflawni ein strategaeth. Bydd modd hefyd ailadrodd hynny bob blwyddyn er mwyn gallu gwerthuso dros y tymor hir. | Ymatebion i'r arolwg |

# Cynaladwyedd: Uchafbwyntiau a diweddariadau

## Cynnydd chwarter 3

Mae cynnydd wedi'i wneud i leihau faint o ynni a ddefnyddir yn Nhŷ Newydd yn ystod misoedd y gaeaf. Oherwydd oedran a maint yr adeilad, mae'n hanfodol ei wresogi'n rheolaidd rhag iddo ddirywio. Serch hynny, pan fydd y ganolfan yn wag, mae'r staff wedi gallu defnyddio thermostatau er mwyn defnyddio llai ar y system wresogi mewn ystafelloedd unigol, gan osgoi defnyddio ynni'n ddiangen ac osgoi gwastraff oherwydd yr inswleiddio gwael yn yr adeilad hanesyddol.

Mae cynnydd wedi'i wneud mewn meysydd eraill tuag at dargedau cynaliadwyedd Tŷ Newydd, gan gynnwys asesu effeithiolrwydd defnyddio tegell tŷ cyffredin yn hytrach nag wrn wrth gynhesu dŵr yn y gegin. Gan fod yr wrn dŵr yn fwy effeithiol pan fydd yn llawn, byddwn ni'n sicrhau bod hwnnw'n cael ei ddefnyddio yn hytrach na'r tegell pan fydd grwpiau mawr yn bresennol (10+ o gyfranogwyr).

Anogir gwesteion hefyd i'n helpu i gyrraedd y targedau cynaliadwyedd. Er enghraifft, rydyn ni wedi diweddaru'r wybodaeth a roddir yn y ffolderi croeso er mwyn annog pobl i fynd ati i ailgylchu'u holl wastraff wrth aros yn Nhŷ Newydd.

Fis Hydref, cynhaliwyd gweminar am greu gwaith ffeithiol greadigol a'r hinsawdd i blant, a hynny fel rhan o raglen Cynrychioli Cymru. Yr awduron Isabel Thomas a Lily Dyu oedd yn arwain y digwyddiad rhad ac am ddim hwn, a oedd ar agor i aelodau'r cyhoedd yn ogystal ag i grŵp o awduron Cynrychioli Cymru. Roedd y digwyddiad yn cynnwys trafodaeth awr o hyd am sut i fynd ati i ymchwilio a sut i ddatblygu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ymhlith plant. Roedd hynny'n cyflawni'r targed o sicrhau bod yr hinsawdd a/neu yr argyfwng natur yn ymddangos mewn o leiaf un o ddigwyddiadau Cynrychioli Cymru.

## Chwarter 3 Targedau a fethwyd

Gofynnodd yr arolwg cynaliadwyedd diweddaraf ymhlith y staff iddyn nhw roi gwybod am eu harferion gweithio yn hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon (Ebrill – Medi 2023). Mae'r arolwg yn galluogi Llenyddiaeth Cymru i fonitro ein cynnydd o dan nifer o dargedau cynaliadwyedd, ac yn dangos ffyrdd o leihau effaith amgylcheddol ein gwaith.

Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu nad yw Llenyddiaeth Cymru yn cyrraedd nifer o dargedau ar gyfer 2023-24 sy'n ymwneud â chymudo. Dywedodd y staff fod 27% o deithiau cymudo posibl yn cael eu gwneud mewn ceir, sy'n gynnydd o'r ffigur o 19% yn 2022-23. Mae hyn yn golygu nad ydyn ni ar hyn o bryd yn cyrraedd ein targed i sicrhau bod 80% o deithiau cymudo posibl mewn ceir yn cael eu hosgoi (drwy ddulliau teithio eraill neu drwy weithio gartref), na'r targed i sicrhau bod yr un nifer o deithiau cymudo yn cael eu gwneud drwy deithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus (11% gyda'i gilydd) â'r nifer sy'n cael eu gwneud mewn ceir yn unig.

Dydyn ni chwaith ddim yn cyrraedd ein targed i annog 80% o'r staff i ddefnyddio Ecosia fel eu peiriant chwilio diofyn, gyda dim ond 62% o'r staff yn dweud eu bod yn defnyddio Ecosia. Mae 15% yn rhagor o staff yn bwriadu gosod Ecosia fel eu peiriant chwilio diofyn, sy'n awgrymu y dylen ni atgoffa'r staff a rhannu cyfarwyddiadau eto ynghylch sut i wneud hynny yn un o gyfarfodydd y staff a dros Teams. Serch hynny, er mwyn cyrraedd y targed hwn, mae canlyniadau'r arolwg staff yn dangos y bydd yn rhaid i ni edrych ar resymau'r staff dros beidio â defnyddio Ecosia, gan fynd i'r afael â'r rhain neu adolygu'r targed hwn.

Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i staff roi gwybod am eu harferion ailgylchu. Dangosodd hyn nad ydyn ni'n cyrraedd ein targed ar hyn o bryd i sicrhau bod 100% o'r staff wastad yn gwneud ymdrech i ailgylchu popeth yn gywir. Dim ond 85% a ddywedodd eu bod wastad yn sicrhau eu bod nhw'n ailgylchu'n gywir, gyda'r 15% arall yn gwneud hynny gan amlaf. Dywedodd y staff mai'r rheswm dros hyn oedd aneglurder ynghylch y system ailgylchu yng Nghaerdydd. Mae disgwyl newid y system ailgylchu eto fis Ionawr, a byddwn ni'n ail-labelu'r biniau, yn rhoi diweddariad clir am ailgylchu yn un o gyfarfodydd y staff, ac yn rhannu dogfennau y gall y staff gyfeirio atyn nhw os byddan nhw'n ansicr ynghylch unrhyw eitemau penodol. Byddwn ni hefyd yn gofyn am adborth parhaus i sicrhau bod gan y staff yr hyder i ailgylchu'n gywir o hyd.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu: 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2023 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| Costau Hygyrchedd | Roedd angen gweithwyr cymorth ar ddau gyfranogwr ar y cwrs Nodyn ar Natur er mwyn cymryd rhan lawn yn y rhaglen. Aelod o'r teulu oedd un o'r rhain, ond roedd y llall yn weithiwr cymorth proffesiynol. Fe wnaethon ni gytuno ar gyfradd ddyddiol cyn y cwrs, ond fe gawson ni adborth defnyddiol wedyn bod ein diwrnodau yn TN rhai dwys. Roedden nhw'n golygu llawer mwy o oriau na diwrnod gweithio arferol gweithiwr cymorth, a hynny oherwydd bod y swper a'r digwyddiadau gyda'r nos yn elfennau hollbwysig o'r rhaglen. | Gallwn ni nawr gyllidebu'n well wrth gyfrifo costau cymorth ar gyfer cyrsiau'r dyfodol, gan drafod anghenion y cyfranogwyr â nhw. |
| Hyfforddiant Cyllid | Fe wnaethon ni gynnal arolwg cyllid ymhlith y staff i ddeall yn well gryfderau, gwendidau a lefelau hyder y tîm, gan ddysgu bod diffyg hyder yn y gweithdrefnau i greu rhagolygon chwarterol. | Bydd negeseuon atgoffa byr yn cael eu rhoi bob chwarter yng nghyfarfodydd y staff, tra bydd Emma a Claire yn sicrhau eu bod yn cysylltu â'r holl reolwyr cyllidebau, boed nhw'n gofyn am gymorth neu beidio, yn ystod y broses o greu rhagolygon. Bob 6 mis, bydd sesiwn ddiweddaru'n cael ei threfnu. |
| Recriwtio siaradwyr Cymraeg | Yn ystod cyfnod recriwtio ein Cydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau, swydd sy'n gofyn am sgiliau siarad ac ysgrifennu Cymraeg cryf, fe wnaethon ni sylwi bod nifer o geisiadau wedi dod i law drwy gyfrwng y Saesneg, hyd yn oed gan ymgeiswyr Cymraeg iaith gyntaf. Roedd rhai o'r ceisiadau'n rhagorol, ac aseswyd bod eu sgiliau'n ddigon cryf yn ystod y broses gyfweld. | Pe bai hysbysebion swyddi'n rhoi mwy o eglurder ynghylch lefel y sgiliau Cymraeg angenrheidiol a'r hyfforddiant mewn hyfedredd sydd ar gael, efallai y byddai'n annog siaradwyr Cymraeg llai hyderus i ymgeisio. Byddwn yn ymgynghori â sefydliadau dwyieithog/Cymraeg eraill yn ystod 2024 er mwyn dysgu sut i ddenu pobl fedrus i swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol iddyn nhw. |